Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1067 (Cy. 181)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r tâl ar gyfer athrawon ysgol (o fewn ystyr "school teacher" yn adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32)) yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud y ddarpariaeth hon drwy gyfeirio at—

(a) adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (diwygiedig) – Medi 2023" ("Dogfen 2022") ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau â 1 Medi 2022 ac yn dod i ben â 31 Awst 2023, a

(b) adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" ("Dogfen 2023") ar ac ar ôl 1 Medi 2023.

Gellir canfod Dogfen 2022 a Dogfen 2023 ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol, o dan adran 123(3) o Ddeddf Addysg 2002, er mwyn darparu—

(a) bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o Ddogfen 2022 yn cael effaith ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau â 1 Medi 2022 ac yn dod i ben â 31 Awst 2023, a

(b) bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o Ddogfen 2023 yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2023,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

er bod y Gorchymyn yn dod i rym ar ôl y dyddiadau hynny (erthygl 2).

Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 (erthygl 3) ac mae'n disodli'r tâl a'r amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru y rhoddwyd effaith iddynt gan y Gorchymyn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Uned Strategaeth y Gweithlu, Yr Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1067 (Cy. 181)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Hydref 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *6 Hydref 2023* |
| *Yn dod i rym* | *28 Hydref 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 122(1), 123 a 124 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 126(**3**) o'r Ddeddf honno wedi ymgynghori â'r personau hynny a'r cyrff hynny y cyfeirir atynt yn yr adran honno yr oedd yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn briodol.

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023 a daw i rym ar 28 Hydref 2023.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i athrawon ysgol yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 2002 p. 32. Diwygiwyd adrannau 122 a 123 gan erthygl 5(1) o O.S. 2010/1158 a chan baragraff 11(2) a (3) o Ran 1 o Atodlen 2 iddo.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39(3) o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).
(**3**) Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39(3) o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "athro neu athrawes ysgol" yr ystyr a roddir i "school teacher" gan adran 122(3) i (6) o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr "Dogfen 2022" ("*the 2022 Document*") yw'r ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (diwygiedig) – Medi 2023" ac a gyhoeddir ar wefan llyw.cymru(**1**);

ystyr "Dogfen 2023" ("*the 2023 Document*") yw'r ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" ac a gyhoeddir ar wefan llyw.cymru.

**Dogfen 2022 a Dogfen 2023**

**2.**—(1) At y dibenion a bennir ym mharagraff (2)—

(a) mae'r darpariaethau a nodir yn adran 2 o Ddogfen 2022 yn cael effaith ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau â 1 Medi 2022 ac yn dod i ben â 31 Awst 2023, a

(b) mae'r darpariaethau a nodir yn adran 2 o Ddogfen 2023 yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2023.

(2) Y dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw dibenion penderfynu—

(a) y tâl ar gyfer athrawon ysgol, a

(b) amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023(**2**) wedi ei ddirymu.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
5 Hydref 2023

(**1**) https://llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth
(**2**) O.S. 2023/443 (Cy. 68).